

Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Ffordd Henllys,
Cwmbrân,
Torfaen
NP44 4HB

Ffôn: 01633 483383
Ffacs: 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk



Annwyl Riant / Warchodwr,

Yn ystod amser mor gyfnewidiol ac anrhagweladwy, diolchwn i chi gyda am eich cymorth a'ch cefnogaeth barhaus. Fel y nodwyd eisoes, iechyd a lles ein disgyblion fydd wrth wraidd bob penderfyniad y gwnawn ni fel ysgol.

Pwysig: Bydd unrhyw gyfarfodydd ar ôl ysgol yn cael eu gohirio am nawr, e.e. nosweithiau rhieni ar y 23ain a'r 24ain o Fawrth a'r cyfarfod i rieni a gwarchodwyr blwyddyn 6 gydag Ysgol Gyfun Gwynllyw heno. Ni fyddwn yn gwahodd rhieni / gwarchodwyr mewn ar gyfer gwasanaethau ar hyn o bryd chwaith a gofynnwn i rieni / gwarchodwyr i ddod mewn i'r ysgol drwy'r brif fynedfa **yn unig**, ac nid drwy'r drws ochr ayyb. Yn ogystal, ni fydd yna glybiau ar ôl ysgol (ar wahan i Glwb Plant y Tri Arth)

Yn amlwg, nid ydym yn gwybod beth fydd yn digwydd gyda chaeadau i ysgolion ond byddwn yn cysylltu gyda rhieni a gwarchodwyr yn syth pan fyddwn yn clywed unrhyw gyfarwyddyd pellach. Fel ysgol, rhaid i ni sicrhau fod pethau wedi eu rhoi mewn lle os fyddwn yn gorfod cau'r ysgol. Ddydd Gwener diwethaf, danfonon ni gyfarwyddiadau ynglŷn â mewngofnodi i HWB adref gyda phob disgybl. Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod eich plentyn yn gallu mewngofnodi i HWB adref. (Gall hwn fod ar ffôn, ar iPad neu ar gliniadur.)

Petai'r ysgol yn gorfod cau, rydym eisiau bod yn y sefyllfa orau posib i sicrhau bod cyswllt yn parhau rhwng yr ysgol a'r cartref. Gofynnwn i chi sicrhau eich bod yn ein dilyn ar app SCHOOP (10319), yn ein dilyn ni ar Twitter (@ygcwmbran) ac yn edrych ar wefan yr ysgol yn aml. (www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk)

Os oes rhaid i ni gau, byddwn yn danfon llyfr gwaith a llyfrau darllen adref gyda'ch plentyn. Byddwn hefyd yn uwch lwytho gwaith ar HWB. Byddwn yn rhoi gwaith ar HWB yr wythnos hon er mwyn treialu'r system ac er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i HWB adref. **Byddwn yn rhannu'r ddolen hon gyda chi cyn gynted â phosibl.**

Gofynnwn yn garedig i chi ddanfon y rhwyglen isod yn ôl at athro / athrawes eich plentyn **yfory** os gwelwch yn dda fel ein bod ni'n gallu gwneud trefniadau priodol ar gyfer bob disgybl.


Diolch yn fawr.

Enw'r plentyn: _____

Dosbarth: _____

- Rhowch 'tic' yn y bocsys priodol:

<input type="checkbox"/>	Rwy'n hapus i ddefnyddio HWB adref gyda fy mhlentyn.
<input type="checkbox"/>	Rydw i wedi sicrhau bod HWB fy mhlentyn yn gweithio ar ffon, iPad neu gliniadur.
<input type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw fynediad gyda fy mhlentyn i HWB adref.



Dear Parent / Guardian,

During such a changeable and unpredictable time, we thank you all for your continued support. As previously noted, the health and well-being of all pupils is our main concern and will be at the forefront of any decisions we make as a school.

Important: Any meeting after school will now be postponed until further notice, e.g. parents evenings on the 23rd and 24th March and the meeting for parents and guardians with Ysgol Gyfun Gwynllyw tonight. We will not be inviting parents / guardians in for assemblies at the moment either and we ask you to use the door to the main reception **only** and not any side doors etc. In addition, all after school clubs (excluding Clwb Plant Y Tri Arth) are cancelled until further notice.

At this moment in time, we don't know what will happen with school closures but we will contact parents and guardians when we receive further directives. As a school, we have to ensure that systems are put in place in case we have to close the school. Last Friday, we sent a letter home with each pupil containing HWB log in details. We're kindly asking you to ensure that your child can log in to HWB at home. (This could be on a phone, iPad or laptop.)

If the school has to close, we want to ensure that we're in the best situation possible and we want to ensure that the link between the school and home continues. We're kindly asking you to follow us on the SCHOOP app (10319), follow us on Twitter (@ygcwmbran) and check in on the school website. (www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk)

If we have to close, we will be sending a work book and reading books home with your child. We will also be uploading work on HWB. We will be putting work on HWB this week to ensure that everything works and to ensure that the pupils can access HWB at home. **We will share this link with you as soon as possible.**

We're kindly asking you to return the slip below to your child's class teacher **tomorrow**, in order for us to put appropriate arrangements in place for every pupil.

Diolch yn fawr / Thank you.

Child's name: _____

Class: _____

- Please tick the relevant boxes:

<input type="checkbox"/>	I'm happy to use HWB at home with my child.
<input type="checkbox"/>	I have ensured that my child's HWB works on a phone, iPad or laptop.
<input type="checkbox"/>	My child doesn't have access to HWB at home.